# CYFARFOD PENDERFYNIADAU AELOD O'R BWRDD GWEITHREDOL DROS TAI

**DYDD** Gwener, 14 Mai 2021

**YN BRESENNOL: Y Cynghorydd:** L.D. Evans (Aelod o'r Bwrdd Gweithredol).

**Roedd y swyddogion canlynol yn bresennol:**
R.M. Davies, Rheolwr Strategol Darparu Tai
K. Thomas, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

Rhith-Gyfarfod
- 10.00 - 10.10 yb

## 1. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau personol.

## 2. LOFNODI BOD COFNOD PENDERFYNIADAU'R CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 18FED MAWRTH 2021 YN GOFNOD CYWIR

**PENDERFYNWYD llofnodi Cofnod Penderfyniadau'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 18 Mawrth 2021, gan ei fod yn gywir.**

## 3. CREU POLISI GOSODIADAU LLEOL AR GYFER MAES PIODE, UN O DDATBLYGIADAU ADEILADU NEWYDD CYNTAF Y CYNGOR

Bu'r Aelod Gweithredol dros Dai yn ystyried adroddiad ar gynigion i fabwysiadu Polisi Gosodiadau Lleol ar gyfer datblygiad adeiladu newydd y Cyngor ym Maespiode, Llandybie sy'n cynnwys wyth cartref dwy ystafell wely a fyddai'n barod i breswylio ynddynt erbyn Haf 2021. Nodwyd bod angen mawr yn ward Llandybie am dai a, phe bai'n cael ei fabwysiadu, byddai'r polisi'n berthnasol yn y lle cyntaf i osod y cartrefi i gymysgedd o denantiaid ar draws y bandiau polisi dyrannu gan helpu i greu cymuned gynaliadwy.

Cyfeiriodd yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol at y ffaith bod y polisi'n weithredol am 6 mis i sicrhau bod y gymuned yn cael cyfle i sefydlu yn iawn a gofynnodd am eglurhad ynghylch pe bai eiddo yn dod yn wag yn y cyfnod o 6 mis y byddai ailosod yr eiddo hwnnw yn cael ei wneud yn unol â'r polisi gosodiadau lleol. Cadarnhaodd y Rheolwr Strategol Darparu Tai y byddai'r polisi dal yn gymwys yn yr amgylchiadau hynny.

**PENDERFYNWYD y dylid cymeradwyo'r Polisi Gosodiadau Lleol ar gyfer y cartrefi newydd yn y datblygiad adeiladu newydd ym Maespiode, Llandybie**

________________________________ ____________________

**AELOD O'R BWRDD GWEITHREDOL** **DYDDIAD**

Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council